**Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaethau Oedolion**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fydd Cyngor Bro Morgannwg yn casglu eich gwybodaeth bersonol mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion. Mae'n cynnwys eich cyswllt â'r Cyngor a'i swyddogion trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb, ffôn, e-bost a chyfathrebu ysgrifenedig. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i'r gwasanaethau canlynol a ddarperir gan Wasanaethau Oedolion: -

- Pob tîm gwaith cymdeithasol sy'n cynnal asesiadau am ofal a chymorth; gan gynnwys:
    - Tîm Derbyn ac Asesu wedi'i leoli yn ein Canolfan Gyswllt
    - Gwasanaethau Gofal Tymor Hir
    - Tîm gwaith cymdeithasol ysbytai
    - Tîm Therapi Galwedigaethol
    - Gwasanaethau Anabledd Dysgu Oedolion,
    - Timau Iechyd Meddwl
    - Tîm Awtistiaeth Oedolion

- Darpariaeth Gwasanaethau Dydd i'r rhai sydd angen cefnogaeth, gan gynnwys:
    - Yr Henoed
    - Anabledd corfforol
    - Anableddau Dysgu

- Gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol gan gynnwys:
    - Gwasanaeth Lleoli Oedolion
    - Cartrefi Gofal Preswyl, a weithredir gan Gyngor Bro Morgannwg
    - Gwasanaethau Adnoddau Cymunedol y Fro, sy'n darparu gofal cartref ail-alluogi

- Swyddogaethau cymorth eraill gan gynnwys:
    - Tîm Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol
    - Cyllid Gofal Cymunedol

Bydd Bro Morgannwg fel Rheolwr Data yn gyfrifol am gasglu a phrosesu gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol rydych chi'n ei darparu i ni o dan Brosesu Cyfreithlon y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol:

- Erthygl 6 (1) (a) - rydych wedi rhoi caniatâd clir inni brosesu eich data personol at bwrpas penodol;
- Erthygl 6 (1) (e) - 'ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...';

- Erthygl 9 (2) (h) - at ddibenion….. 'diagnosis meddygol, darparu triniaeth iechyd neu ofal cymdeithasol neu reoli systemau iechyd a gofal cymdeithasol...'.

Yn y cyd-destun hwn, golyga prosesu drefnu, adalw, ymgynghori, defnyddio a dileu neu ddinistrio gwybodaeth a'i datgelu i asiantaethau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd neu ar gyfer darparu gofal cymdeithasol.

**Gwybodaeth rydym ni'n ei chasglu**

Pan fyddwn yn dod i gysylltiad â chi naill ai'n bersonol, dros y ffôn, e-bost neu unrhyw ffurf arall o gyfathrebu efallai y bydd angen i ni gasglu a storio'r wybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych chi neu'ch teulu fel y gallwn gynnig y gwasanaeth priodol. Gallai'r math o wybodaeth y byddwn ei hangen gennych chi fel lleiafswm gynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad Geni
- Gwybodaeth Gyswllt
- Rhif Ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Gwybodaeth ariannol
- Galwedigaeth
- Cyfeiriadau personol
- Cyfansoddiad teulu ac amgylchiadau cymdeithasol
- Atgyfeiriadau asiantaethau eraill
- Anghenion asesu
- Addysg
- Hanes troseddol
- Unrhyw wybodaeth ffeil achos arall a gofnodwn i ddarparu gwasanaeth i chi

Efallai y byddwn yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth ychwanegol o'r enw 'categorïau arbennig o ddata personol' lle bo hynny'n briodol gan gynnwys:

- Gwybodaeth iechyd (cyfranogiad Meddyg Teulu/ Ymwelydd Iechyd/ Nyrs Ardal)
- Hil
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Tarddiad ethnig
- Crefydd
- Geneteg
- Biometreg (lle y'i defnyddir at ddibenion ID)
- Asesiadau galluedd meddyliol

**I beth rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth?**

- Ein galluogi i gyflawni swyddogaethau gofal cymdeithasol statudol ac anstatudol yr ydym yn gyfreithiol gyfrifol amdanynt;
- Caniatáu i ni gyfathrebu a darparu gwasanaethau sy'n briodol i'ch anghenion;
- Casglu gwybodaeth sy'n llywio penderfyniadau cynllunio a darparu gwasanaeth;
- Llywio asesiadau a wneir gan ein meysydd gwasanaeth;
- Prosesu trafodion ariannol;
- Lle bo angen, i ddiogelu pobl er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed neu anaf;
- Cynnal ymchwil neu ddadansoddiad ystadegol sy'n caniatáu inni dargedu a chynllunio darparu gwasanaethau;
- Adnabod preswylwyr/ defnyddwyr er mwyn eu hysbysu am newidiadau arfaethedig neu gynlluniedig i wasanaethau a allai effeithio arnynt;
- Cynorthwyo'r Cyngor i ymateb i argyfyngau neu ddamweiniau mawr. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor, ar y cyd â'r gwasanaethau brys, adnabod dinasyddion a allai fod angen cymorth ychwanegol;

**Beth yw ffynhonnell eich data personol?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn cael eich data personol yn uniongyrchol gennych chi neu gan asiantaethau ac awdurdodau eraill fel:

- Yr Heddlu
- Cynghorau eraill
- Byrddau Iechyd
- Sefydliadau eraill

**Gyda phwy y gellir rhannu'ch gwybodaeth (yn fewnol ac yn allanol)**

Rydym yn gweithredu trefniadau ar y cyd ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, gan ddefnyddio cronfeydd data gwybodaeth.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol yn ogystal â darparu gwasanaeth i chi lle bo’n briodol, efallai y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel -

- Meddygon Teulu ac Asiantaethau Iechyd eraill (gan gynnwys Ysbytai, ymddiriedolaethau Iechyd Meddwl);
- Darparwyr gwasanaethau wedi'u comisiynu;
- Gwasanaethau eraill a gomisiynwyd fel darparwyr trafnidiaeth;
- Adrannau mewnol yng Nghyngor Bro Morgannwg;
- Adrannau'r Llywodraeth gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM;
- Yr Heddlu;

- Y Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Y Gwasanaeth Prawf;
- Awdurdodau Lleol Eraill (Adrannau Gofal Cymdeithasol ac Addysg Plant ac Oedolion);
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid;
- Ysgolion.

Dim ond gydag adrannau mewnol a darparwyr gwasanaeth contractwyr a/ neu gyrff partner eraill y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth lle bo angen -

- I gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- I ddarparu gwasanaeth rydych chi wedi gofyn amdano;
- I amddiffyn eich hun ac eraill;
- Pan ganiateir hyn o dan y gyfraith Diogelu Data;
- Pan fo'r datgeliad yn angenrheidiol at ddibenion atal a/ neu ganfod trosedd;
- At ddibenion ymchwil (gyda chaniatâd);
- Lle bo angen caniatáu i drydydd parti sy’n gweithio gyda neu ar ran y Cyngor

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau y bydd unrhyw ddata personol yn ein gofal yn cael ei gadw'n ddiogel a phan fydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu i drydydd parti, byddwn yn ceisio sicrhau bod gan y trydydd parti systemau a gweithdrefnau digonol ar waith i atal y golled neu'r difrod. o ddata personol.

Ni fyddwn yn defnyddio'ch data personol at ddibenion marchnata trydydd parti heb eich caniatâd penodol ymlaen llaw.

**Pa mor hir fyddwn ni’n cadw'ch gwybodaeth?**

Dim ond cyhyd ag y bydd ei hangen y byddwn yn cadw’r wybodaeth. Ceir copi o amserlen gadw y Cyngor ar:
[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/adult_and_community_learning/Get-Back-on-Track/Website-privacy-notice.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/adult_and_community_learning/Get-Back-on-Track/Website-privacy-notice.aspx)

**Diogelwch Gwybodaeth**

Rydym yn cydnabod y gallai'r wybodaeth a roddwch fod yn sensitif a byddwn yn parchu eich cyfrinachedd. Rydym yn cadw gwybodaeth amdanoch yn gyfrinachol. Mae hyn yn golygu ein bod yn ei storio'n ddiogel ac yn rheoli pwy sydd â mynediad iddi. Ni fyddwn yn storio unrhyw wybodaeth lle nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

**Trosglwyddiadau Data**

Mae'r holl wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni yn cael ei chadw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

**Eich hawliau**

Mae'r Cyngor yn ceisio bod mor agored ag y gall fod o ran unigolion yn arfer eu hawliau ynghylch eu data personol, gan gynnwys hawliau mynediad, cywiro, dileu, cyfyngu, cludadwyedd data, gwrthwynebiad, a'r rhai sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau

awtomataidd. Gall unigolion ddarganfod p’un a ydym yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol trwy wneud Cais Mynediad Pwnc o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Diogelu Data 2018.

Gallwch wneud cais i'r Cyngor am unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi trwy:

**E-bostio tîm yr Uned Rhyddid Gwybodaeth - FOIUnit@bromorgannwg.gov.uk**
Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu i chi yn rhad ac am ddim.

**Eich hawl i gwyno**
Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn am hyn o ddifrif. Os yw pobl yn credu fod ein casglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol, rydym yn eich annog i dynnu ein sylw ato.

Os ydych chi am wneud cwyn, cysylltwch â'r canlynol:
Y Swyddog Cwynion
Swyddfeydd y Dociau
Subway Road
Y Barri
CF63 4RT

**Swyddog Diogelu Data**
Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Cyngor yn y cyfeiriad canlynol:

Uned Rhyddid Gwybodaeth
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

E-bost - DPO@bromorgannwg.gov.uk

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Y Comisiynydd Gwybodaeth yw corff annibynnol y DU a sefydlwyd i'w gynnal hawliau gwybodaeth.

Os hoffech wybod mwy am eich hawliau o dan y gyfraith Diogelu Data, a'r hyn y dylech ei ddisgwyl gennym, ewch i wefan y Comisiynydd Gwybodaeth. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch ein harferion preifatrwydd neu ynghylch ymarfer eich Hawliau Diogelu Data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House

Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545 745

E-bost: casework@ico.org.uk

Nodir rhestr lawn o'r wybodaeth yr ydym yn ei rheoli a'i phrosesu ac at ba ddibenion yn ein hysbysiad gyda Chofrestr Rheolwyr Data'r Comisiynydd Gwybodaeth.
Ein rhif cofrestru yw Z4683754. Gallwch weld ein cofrestriad ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.